# BWLETIN Y FARCHNAD HCC

TACHWEDD 2017

**Mae data diweddaraf Kantar Worldpanel am werthiannau manwerth ym Mhrydain wedi dangos patrymau gwahanol ar gyfer y tri phrotein cig och, sef cig eidion, cig oen a phorc. Mae'n dadlenni cynnydd yng nghyfaint a gwerth y cig eidion a phorc ffres a werthwyd dros gyfnod o deuddeg wythnos tan yr wythnos yn diweddu 8 Hydref, mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol yn 2016. Dros yr un cyfnod, er bod llai o gig oen ffres wedi'i werthu mewn siopau ym Mhrydain, ni fu newid yng ngwerth y cig hwnnw am fod y pris cyfartalog wedi cynyddu ychydig. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau.**

## Cig Eidion

Roedd gwerth y cig eidion ffres a werthwyd yn ystod y cyfnod o ddeuddeg wythnos yn £465.2 miliwn, sef 4.3% yn fwy nag yn 2016. Y prif reswm am hyn oedd cynnydd o 4% yn y pris cyfartalog (£7.99/kg), ond, hefyd, gwerthwyd ychydig yn fwy o gig. Fel arfer, pan fo'r pris yn cynyddu, bydd llai o gig yn cael ei werthu – ond ni ddigwyddodd hynny eleni, efallai am fod defnyddwyr wedi newid protein. I raddau helaeth, gwerthwyd mwy o gig eidion am fod yna fwy o brynwyr, a'r rheini'n prynu ychydig yn amlach. Effaith bosibl y pris cyfartalog uwch oedd bod defnyddwyr wedi prynu ychydig yn llai bob tro ond cafodd hyn ei wrthbwyso gan y nifer gynyddol o brynwyr.

Mae dadansoddiad pellach o'r ffigurau yn dangos bod briwgig yn dal i fod ar frig y categori cig eidion ffres, gan gyfrif am dros hanner y cyfaint a werthwyd yn ystod y tri mis. Mae hyn yn amlygu sut mae briwgig eidion wedi dod yn rhan annatod o ddiet defnyddwyr ym Mhrydain am fod modd ei goginio'n gyflym, am ei fod yn fforddiadwy ac am fod modd ei ddefnyddio ar gyfer pob math o brydau bwyd. Cafwyd gwahaniaeth sylweddol o ran y prif doriadau eraill yn y categori cig eidion – ar gyfer rhostio a stiwio. O ystyried bod y data yn ymwneud â chyfnod yn yr haf, nid yw'n syndod bod llai o ddarnau cig eidion i'w rhostio wedi cael eu gwerthu bryd hynny; fodd bynnag, roedd cyfaint y cig a werthwyd eleni, sef 8,820 tunnell fetrig, bron 7% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2016. Cafwyd cynnydd sylweddol yng ngwerthiannau cig eidion stiwio, o ran cyfanswm y gwariant a'r cyfaint. Roedd cyfaint y cig eidion stiwio a werthwyd yn ystod y cyfnod, sef 6,550 tunnell fetrig, yn gynnydd o bron 17%, a chyda phris cyfartalog ychydig yn uwch, cynyddodd y gwariant ar y cynnyrch hwn dros 18% i £46.2 miliwn.

## Cig Oen

Doedd fawr o wahaniaeth yng nghyfanswm gwerthiannau cig oen ffres yn ystod y cyfnod dan sylw o'i gymharu â'r 12 wythnos cyfatebol yn 2016; fodd bynnag, gwelwyd rhywfaint o newid. Gwariwyd £114.5 miliwn ar gig oen ffres, sef ychydig yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Roedd hyn yn cynnwys gostyngiad o 3% i 12,200 tunnell fetrig yn y cyfaint a werthwyd tra bod y pris cyfartalog wedi codi 3% i £9.39/kg. Mae'r ffigurau'n dangos er bod y cyfaint a brynwyd fesul prynwr wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall, cafwyd gostyngiad o 4% yn nifer y prynwyr. Mae annog prynwyr newydd yn dal i fod yn her ar gyfer cig oen ac mae dadansoddi'r sectorau twf ar gyfer proteinau eraill yn tynnu sylw at sut y bydd marchnata hyblygrwydd y cynnyrch yn allweddol ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwerthwyd mwy o olwython a stêcs cig oen nag o ddarnau coes i'w rhostio yn ystod y cyfnod dan sylw wrth i ddefnyddwyr chwilio am fwydydd barbeciw. Fodd bynnag, doedd haf gwlyb 2017 ddim yn addas ar gyfer bwyta yn yr awyr agored ac efallai taw dyna pam y bu bron cymaint o werthu ar ddarnau coes i'w rhostio ag ar olwython/stêcs yn ystod y cyfnod o 12 wythnos. Roedd gostyngiad o 10%, i 3,835 tunnell fetrig, yng nghyfaint y golwython/stêcs a werthwyd tra bu cynnydd o 4%, i 3,800 tunnell fetrig, yng nghyfaint y darnau rhostio a werthwyd. Oherwydd y pris cyfartalog uwch am olwython (£10.71/kg mewn cymhariaeth a £8.63/kg ar gyfer darnau rhostio) roedd gwahaniaeth o £8.2 miliwn rhwng cyfanswm y gwariant ar y naill a'r llall. Roedd y gwariant ar olwython/stêcs yn agos i £41.1 miliwn a'r gwariant ar ddarnau coes i'w rhostio yn £32.8 miliwn. Gwelwyd cynnydd yn y pris cyfartalog ar gyfer pob math o gig oen mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol yn 2016, o bosib oherwydd y prisiau uwch am ŵyn yn ystod misoedd cyntaf y cyfnod, llai o fewnforio a chwyddiant ym mhrisiau bwyd.

## Porc

Gwerthwyd mwy o borc ffres yn ystod y cyfnod dan sylw, a hynny ar gyfer y rhan fwyaf o'r prif doriadau. Roedd hyn yn golygu fod y gwariant wedi cynyddu bron 11% i £170.3 miliwn. Gwerthwyd 35,850 tunnell fetrig, sef cynnydd o 4% a chododd y pris cyfartalog i £4.75/kg. Mae'n galonogol nodi fod y data'n dangos bod pobl yn prynu porc yn amlach a bod mwy o brynwyr yn ystod y cyfnod o 12 wythnos.


Nid yw'n syndod, o gofio bod y data ar gyfer misoedd yr haf, taw golwython/stêcs oedd fwyaf poblogaidd, gan gyfrif am bron 40% o'r holl gyfaint porc. Yn ystod y cyfnod hwn, gwerthwyd 14,200 tunnell fetrig o olwython/stêcs.



# PRISIAU'R FARCHNAD

## GWARTHEG

Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





Gwelwyd cynnydd ym mhrisiau gwartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr yn ystod yr wythnosau diwethaf, sy'n groes i'r patrwm pwysau marw a welwyd yn ystod y cyfnod hwn. Yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, yn diweddu 21 Hydref, roedd pris cyfartalog gwartheg dethol yn 196.6c/kg, sef bron 3c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol a 5c yn uwch nag ar ddechrau'r mis. O'i gymharu â blwyddyn yn gynharach, mae'r pris presennol yn rhyw 9c yn uwch na chyfartaledd 2016. Daw'r cynnydd diweddaraf mewn prisiau wrth i nifer yr anifeiliaid dethol mewn marchnadoedd da byw ostwng; gwelwyd hyn gyda'r tri math o wartheg dethol. Roedd y pris cyfartalog am fustych yn ystod yr wythnos yn 189.6c/kg, sef cynnydd o 2c. Roedd pris heffrod yn 205.8c/kg, sef 3c yn fwy na'r wythnos flaenorol. Y pris am deirw ifainc oedd 190.9c/kg, ac roedd hyn eto'n 3c yn uwch na'r pris cyfartalog yr wythnos flaenorol. Gwerthwyd ychydig dan 3,000 o anifeiliaid dethol yn y marchnadoedd da byw, sef tua 7% yn llai nag yn y ddwy wythnos flaenorol.

Roedd patrwm y prisiau pwysau marw ar gyfer y gwahanol gategorïau o wartheg dethol yn amrywio; cafwyd gostyngiad yn y ddau gategori gwrywaidd ond bu mymryn o gynnydd ym mhris yr heffrod. Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 21 Hydref, cafwyd gostyngiad o bron 4c i 354.3c/kg, yn y pris cyfartalog am fustych yng Nghymru a Lloegr – a hynny er i 3.6% yn llai gael eu lladd yn y lladd-dai hynny lle cofnodir prisiau. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf o'r naill wythnos i'r llall yn y categori teirw ifainc lle roedd y pris cyfartalog yng Nghymru a Lloegr yn 328.9c/kg, sef 12c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Fel arall y bu o ran heffrod; cafwyd cynnydd bychan i 357.1c/kg, er i nifer y heffrod gynyddu dros 10%.

Roedd prisiau buchod difa yn y marchnadoedd da byw yn 106.7c/kg yn ystod yr wythnos yn diweddu 21 Hydref. Er bod hyn yn 20c yn is nag yn y cyfnod brig ym mis Mehefin eleni, mae'r pris tua 16c yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Y pris pwysau marw ar gyfer buchod difa yng Nghymru a Lloegr yn yr wythnos yn diweddu 21 Hydref oedd 230.8c/kg, sef bron 2c yn is nag yn yr wythnos flaenorol.

## DEFAID





Bu'r fasnach cig oen pwysau byw yn gymharol sefydlog yn ystod yr wythnosau diwethaf, gydag unrhyw newid yn y pris yn ymylol. Prynwyd mwy yn y cyfnod hwn, a bu ychydig o ostyngiad yn y prisiau o'r herwydd. Yn yr wythnos ddiweddaraf, yn diweddu 21 Hydref, roedd y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn 162.4c/kg, sef 2c yn llai na'r cyfartaledd yr wythnos flaenorol. Felly, roedd y pris ychydig dros 3c yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol yn 2016. Ymddengys fod y pris yn y marchnadoedd da byw wedi dechrau dilyn patrwm 2016 yn ystod yr wythnosau diwethaf gan fod y galw am y cynnyrch yng ngwledydd Prydain yn araf. Mae'r bunt wan wedi helpu i danio rhywfaint o gystadleuaeth yn y marchnadoedd allforio ac ymddengys fod hynny wedi hybu prisiau eleni. Mae'r data am ladd, ynghyd â gwybodaeth o'r Arolwg Mehefin diweddaraf ar gyfer y DU, yn awgrymu y gallai mwy o ŵy n nag sy'n arferol gael eu marchnata yn ystod y misoedd nesaf, a gallai hynny effeithio ar y prisiau i gynhyrchwyr, gan ddibynnu ar ba bryd y gwerthir yr anifeiliaid hyn.

Mae'r prisiau ŵy n pwysau marw hefyd wedi dilyn patrwm 2016 yn ystod y mis diwethaf, er, yn wahanol i'r pris pwysau byw. Mae'r cyfeirbris ar hyn o bryd ychydig yn is nag oedd y llynedd. Yn yr wythnos yn diweddu 21 Hydref, roedd prisiau ŵy n pwysau marw ym Mhrydain yn 386.4c/kg, sef 3c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Felly, mae'r pris a nodir ychydig dros 3c yn is nag oedd yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, a dyma'r chweched wythnos yn olynol i brisiau 2017 fod yn is nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Mae'r fasnach famogiaid difa wedi dirywio yn ystod y misoedd diwethaf er y cafwyd ychydig o gynnydd yn ystod yr wythnos ddiweddaraf. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 21 Hydref, roedd y pris yn £41.10 yr anifail, sef £2.30c yn uwch na'r wythnos flaenorol. Ymddengys taw'r prif reswm am y cynnydd hwn yn y pris oedd bod 13% yn llai o famogiaid ar werth nag yn yr wythnos flaenorol. Felly, mae'r prisiau ar hyn o bryd yn £3.60 yr anifail yn is nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2016.

## MOCH

Pris Cyfartalog Moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




Mae prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) wedi dal i ostwng yn araf yn ystod y mis diwethaf - a hynny ar ôl y cynnydd parhaus yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 14 Hydref, roedd y pris cyfartalog yn 161.0c/kg, sef 1c yn is na chyfartaledd yr wythnos flaenorol a 7c yn is na'r pris brig a eleni yng nghanol mis Awst. Er gwaethaf y gostyngiad diweddaraf hwn, mae'r pris yn dal i fod bron 15c yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, a 31c yn uwch nag yn 2015.

Yn yr wythnos yn diweddu 21 Hydref, cafwyd gostyngiad o bron 1c i 157.1c/kg ym mhris y moch safonol (manyleb yr UE). Dyma'r nawfed wythnos yn olynol i'r pris hwn ddisgyn. Eto i gyd, mae'n dal i fod 11c yn uwch na phris 2016 ar gyfer yr wythnos gyfatebol. Dylid nodi y cafwyd gwelliannau sylweddol ym mhrisiau 2016 yn ystod yr hydref, ac felly mae'n debygol y ceir gwelliant eto wrth i gyfnod y Nadolig nesáu.

Wrth i bris moch pwysau marw ostwng ychydig, felly hefyd y pris am berchyll, ac yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 21 Hydref roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg yn £ 56.30, sef bron £2.00 yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Ers i'r pris pwysau marw sefydlogi ddiwedd Awst, bu'r pris am berchyll yn weddol ansefydlog - gyda gostyngiad un wythnos ac yna cynnydd tebyg yr wythnos ganlynol, yn enwedig ar gyfer perchyll 30kg; roedd prisiau'r perchyll 7kg yn fwy sefydlog. Yn ystod yr un wythnos roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £41.40, sef 40c yn is nag oedd yn yr wythnos flaenorol.